

LLINELL AMSER

Adeiladau yng Nghymru

Mae'r llinell amser hon o adeiladau yng Nghymru yn rhoi syniad i ddisgyblion sut mae adeiladau wedi newid dros y canrifoedd o'r cyfnod Paleolithig hyd at adeilad eco modern yn y 21ain Ganrif

Syniadau ar gyfer gweithgareddau dosbarth a chyswllt cartref.

- Anogwch eich disgyblion i ymchwilio i'w cartrefi nhw eu hunain drwy lenwi'r daflen waith cartref 'Sut fath o adeilad yw eich cartref chi?'
- Ysbrydolwch eich disgyblion i ofyn cwestiynau am adeiladau hanesyddol yn eich ardal. Anogwch eich disgyblion i fod yn Dditectifs Adeiladau...
- Beth am argraffu'r llinell amser A4 er mwyn i'r disgyblion fedru rhoi trefn arno. I ddechrau heb ddangos dyddiadau gan eu hannog i edrych ar yr adeiladau a'r defnyddiau adeiladu ac yna gan ddangos y dyddiadau – oeddent yn gywir (rhifedd ar draws y cwricwlwm a datrys problemau
- Crëwch linell amser o adeiladau yn eich ardal chi. Gadewch i'r disgyblion dynnu lluniau o'r adeiladau. A oes hen luniau o'r adeiladau yn bodoli?
- Crëwch linell amser 3D o adeiladau lleol drwy greu modelau neu ludwaith o adeiladau lleol hanesyddol.
- Beth am gynnwys dyddiadau a lluniau o'ch adeiladau lleol yn y llinell amser hon?

Image credits:

'Ogof Paviland Cave' by Alan Richards is licensed under CC BY-SA 2.0
'Roman amphitheatre, Caerleon' by Eirian Evans is licensed under CC BY-SA 2.0
'Pentre Ifan' by Daniel Phillips / is licensed under CC BY-SA 2.0
'Offa's Dyke' by Raymond Perry is licensed under CC BY-SA 4.0
'Chepstow Castle' by Nessy is licensed under CC BY-SA 4.0
'Comeston' by Nilfanion is licensed under CC BY-SA 2.0
'Garreg Fawr' by Ben Bore is licensed under CC BY-SA 2.0
'Prefab, St Fagans' by Dave Snowden is licensed under CC BY-SA 2.0
Llwyn Celyn: Landmark Trust
Llandovery: Discover Carmarthenshire
Eco buildings: Down to Earth

24,000 CC



Ogof Paviland

Y Cyfnod Paleolithig gelwir y blynyddoedd rhwng tua 750,000 o flynyddoedd yn ôl â 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Darganfuwyd gweddillion dynol yn dyddio o tua 24,000 CC yn Ogof Paviland ar y Gŵyr yn 1823.

Tua

4000 CC – 2,500 CC



Pentre Ifan

Yn ystod y cyfnod Neolithig dechreuodd y bobl a arferai grwydro a hela er mwyn goroesi, i aros mewn llefydd am gyfnodau hirach i fagu anifeiliaid a phlannu cnydau. Gelwir Pentre Ifan yn Sir Benfro yn 'dolmen' ac mae'n bosibl ei fod wedi cael ei ddefnyddio fel bedd.

6000 CC – 50 OC



Tai crwn Oes yr Haearn Bryn Eryr

Yn ystod Oes yr Efydd a'r Oes Haearn ym Mhrydain,
dyma'r math o gartrefi oedd mwyaf poblogaidd.
Gellir gweld yr adeiladau yma o Sir Fôn yn wreiddiol yn
Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

48 OC – 383 OC



Amffitheatr Caerleon

Daeth y Rhufeiniaid â ffordd o fyw newydd i Brydain wrth iddynt adeiladu trefi a heolydd. Adeiladon nhw heolydd mor syth â phosib er mwyn sicrhau bod eu milwyr yn gallu teithio'n gyflyn. Adeiladwyd Amffitheatr Caerleon fel caer i'r Isca tua 90 OC.

Tua
785



Clawdd Offa

Arglawdd sy'n creu ffin rhwng Cymru a Lloegr a adeiladwyd gan Offa, Brenin Marcia. Credir bod y gwaith o adeiladu'r clawdd wedi dechrau yn 785 a bod y gwaith wedi parhau am nifer o flynyddoedd.

1067



Castell Cas-gwent

Dyma'r castell hynaf cerrig sydd wedi goroesi yn dilyn teyrnasiad y Rhufeiniaid. Wedi ei leoli ar glogwyn fri uwchben yr Afon Gwy, dyma'r castell mwyaf deheuol a adeiladwyd yn rhan o gadwyn o gestyll ar hyd Y Mers.

Yn fwy diweddar, bu'r castell yn lleoliad ar gyfer ffilmio 'Dr Who!'

Tua
1350



Pentref Canoloesol Cosmeston

Yn ystod datblygiad Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston ger Penarth ym Morgannwg, datguddiwyd olion o gymyned dros 600 mlwydd oed yno.

Ail-grëwyd y pentref canoloesol sydd yno heddiw i adlewyrchu bywyd yno yn y flwyddyn 1350 ac mae'n cynrychioli bywyd gwerinol yng Nghymru yn y 14eg Ganrif.

1420



Llwyn Celyn

Mae Llwyn Celyn yn dyddio o 1420 ac fe adeiladwyd y tŷ fel ran o Ystâd Priordy Llanddewi yn dilyn cyfnod cythryblus yn hanes Cymru yn y Canol Oesoedd. Ychydig iawn o dai Cymreig sydd wedi goroesi o'r cyfnod hwn.

1500



Tŷ Masnachwr Tuduraidd

Ar lannau'r Afon Cleddau yn Hwlfordd oedd lleoliad gwreiddiol y tŷ yma sydd heddiw i'w weld yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Roedd y teulu'n byw ar y llawr cyntaf a storiwyd nwyddau megis rhaffau, pysgod wedi'u halltu, caws a gwin ar y llawr gwaelod.

1544



Ffermdy Garreg Fawr

Adeiladwyd Garreg Fawr yn 1544 and roedd yn gartref i ffermwr cefnog. Defnyddiwyd darnau mawr o garreg llechi a cherrig mawr. Mae caeadau derw ar y ffenestri i gadw'r gwynt a'r oerfel allan gan nad oes gwydr ynddynt. Mae'r ffermdy yn awr i'w weld yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

1770



Bwthyn Nantwallter

Bwthyn wedi'i adeiladu o glai a phridd a alwyd yn 'clom' yn lleol. Cymysgwyd clai lleol gyda gwellt, pridd a cherrig man cyn ei osod mewn haenau. To gwellt sydd ganddo. Gweithwyr ar ystâd Taliaris yn Sir Gâr oedd y tenantiaid gwreiddiol. Mae'r bwthyn wedi ei symud i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

1810



Tai Sioraidd

Y Sgwâr yn Llanymddyfri.

1795



Teras Rhyd-y-car

Adeiladwyd y teras yn wreiddiol ym Merthyr Tudful gan Richard Crawshay tua 1795 er mwyn darparu cartrefi ar gyfer y gweithwyr mewn cloddfa fwyn haearn. Erbyn heddiw, mae'r teras o chwe thŷ i'w weld yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ac yn cynrychioli gwahanol gyfnodau, sef 1805, 1855, 1895, 1925, 1955 a 1985.

1771



Tolldy

Aberystwyth yn ystod cyfnod pan oedd ddechreuodd cwmnïau tyrpeg adeiladu godi tollau am deithio ar nifer o heolydd . Roedd y tolldai yn amhoblogaidd iawn mewn ardaloedd gwledig a gyda ffermwyr oedd yn cael eu gorfodi i dalu er mwyn cludo calch a nwyddau ar hyd y ffyrdd. Daeth Terfysgoedd Beca a'r tollau i ben ar ôl eu hymgyrch yn 1843.

1890



Tŷ Fictoraidd

Arweiniodd y cynnydd diwydiannol yn ystod y cyfnodau Fictoraidd ac Edwardaidd at gynnydd sylweddol yn y boblogaeth ac mewn adeiladau hefyd. Byddai teuluoedd mwyaf cefnog yn byw mewn tai pêr cymesur neu mewn tai sengl mwy crand eu golwg.

1917



Sefydliad y Gweithwyr Oakdale

Adeiladwyd yn wreiddiol yn 1917 ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, addysgiadol a diwylliannol ardal lofaol Oakdale yng Ngwent. Ar y llawr gwaelod mae yna Lyfrgell, Ystafell Ddarllen ac Ystafell Bwyllgor. Ar y llawr cyntaf mae ystafell ar gyfer cyngherddau ar gyfer dros 200 o bobl.

1947



Prefab

Adeiladwyd nifer o'r tai yma er mwyn darparu llawer o dai yn gyflym yn lle'r cartrefi a fomiwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cynhyrchwyd y byngalos aliminiwn hyn mewn ffatrioedd a arferai gynhyrchu awyrennau yn ystod y Rhyfel. Bwriadwyd iddynt fodoli am 10 mlynedd ac efallai mai'r un yma yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yw'r un olaf ym Mhrydain.

2016



Tai Eco

Mae'r holl ddefnyddiau adeilad o'r ardal leol yn cynnwys y pren, byrnau gwellt a phlastr clai. Adeiladwyd gan ddefnyddio technegau adeiladu traddodiadol.